# NODYN CYNGOR AR RYWOGAETHAU ESTRON GORESGYNNOL MOROL

## Digwyddiad ym marina Caergybi ac ymlediad posibl rhywogaethau estron goresgynnol morol *Didemnum vexillum*

Ar 2 Mawrth, achosodd storm Emma ddifrod sylweddol i Farina Caergybi. Roedd y gwaith glanhau yn dilyn ac mae yn parhau o hyd.

Fel rhan o'r gwaith glanhau, mae camau'n cael eu cymryd i leihau unrhyw effaith amgylcheddol posibl allai godi o ganlyniad i'r digwyddiad hwn.

Mae'r nodyn cyngor hwn wedi'i baratoi i roi cyngor i'r rhai hynny sydd â diddordeb. Er gwaethaf yr ymdrechion i gadw'r gweddillion rhag lledu o'r marina, mae rhywfaint ohono wedi mynd allan i'r harbwr a'r môr yn ehangach.



Darlun 1 1. D. vex ar arwynebedd pontŵn dan y dŵr yng Nghaergybi

O ganlyniad i hyn, mae'n golygu bod posibilrwydd i'r chwistrell fôr garped *Didemnum vexillum* (D. vex), rhywogaeth estron goresgynnol forol, i ledaenu i ardaloedd eraill. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn llai tebygol o ledaenu oherwydd tymheredd y môr ar hyn o bryd, nad yw'n ffafriol ar yr adeg yma o'r flwyddyn i'r D. vex genhedlu.

Cyn storm Emma, roedd D. vex yn cadw o fewn y marina, wedi ei ganfod yn byw ar strwythurau artiffisial dan yr wyneb, ac mae i'w gael yn aml ar bontwnau, rhaffau a chadwyni dan yr wyneb. (Darlun 102). Roedd yr wyneb resin ar y pontwnau sy'n arnofio yn rhoi lle addas i'r D. vex fyw.



Darlun 1 2. D. vex yn tyfu ar rywogaethau cynhenid yng Nghaergybi

Mae'r D. vex (cliciwch yma am y daflen ffeithiau) yn cael ei ystyried yn rywogaeth oresgynnol gan ei fod yn bosibl iddi gael effaith negyddol ar bysgodfeydd, dyframaethu a chadw cynefinoedd morol cynhenid.

## Ardaloedd y mae posibilrwydd o ymlediad



Darlun 3. Gweddillion pontŵn sy'n arnofio gyda resin ar yr wyneb (Darlun: Ashley Williams)

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan weddillion y posibilrwydd o ledaenu'n weddol bell o Gaergybi. Mae gweddillion pontŵn sy'n arnofio gyda gorchudd resin wedi'i weld oddeutu 37km o'r marina (Darlun 3).

Bu hefyd adroddiadau bod polysteren (o bontwnau Caergybi o bosibl) yn dod i'r lan yn Wicklow yn Iwerddon. Ni fu adroddiadau pellach o weddillion mewn lleoliadau eraill ar hyn o bryd.

## Beth i'w wneud os ydych yn gweld unrhyw weddillion posibl.

Ble y bo'n bosibl ac yn ddiogel i wneud hynny, rydym yn awgrymu bod unrhyw weddillion sy'n cael eu ddarganfod, ac mae enghraifft i'w weld yn narlun 4-5 isod, yn cael ei roi mewn bagiau a'i symud i ardal y penllanw i'w rwystro rhag dychwelyd i'r môr ac i helpu i leihau'r risg o D. vex yn ymledu. Yna dylid cysylltu â'r Awdurdod Lleol perthnasol.

Rydym yn awgrymu ymweld â'r lleoliadau ble y mae'r gweddillion wedi'u casglu yn ddiweddrach yn y flwyddyn i weld a oes D. vex yno.





Mae Darlun Gwrthrychau 4-5 yn y gymuned o organebau yn ymddangos yn debyg i D. vex ond roedd wedi sychu gormod i allu nodi hynny yn hyderus.